Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Delyth.jewell@senedd.cymru

7 Mawrth 2023

Annwyl Delyth,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ar 17 Chwefror 2023, lle'r ydych yn holi am ragor o wybodaeth am waith ymgysylltu tramor, ymweliadau tramor a Memoranda Cyd-ddealltwriaeth.

Ymgysylltu Tramor

Yn fy llythyr ar 7 Rhagfyr cytunais y byddai fy swyddogion yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am bob ymweliad diplomyddol â Chymru, a phob ymweliad tramor gan Weinidogion – gan ddarparu crynodeb ôl-weithredol bob mis. Darparwyd y crynodeb cyntaf hwnnw, ar gyfer ymweliadau ym mis Rhagfyr a mis Ionawr, ar 6 Chwefror. Roedd y crynodeb hwnnw yn cynnwys pob ymweliad diplomyddol ac ymweliadau tramor gan Weinidogion yn ystod y cyfnod hwnnw.

Yn eich llythyr, rydych yn holi am wybodaeth ychwanegol am yr ymweliadau hyn. Ar gyfer ymweliadau tramor gan Weinidogion, darperir gwybodaeth ychwanegol, fel arfer, drwy Ddatganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidogion o fewn ychydig ddyddiau i'r ymweliad tramor hwnnw.

Gallai darparu manylion am drafodaethau a gynhaliwyd gyda chynrychiolwyr llywodraethau eraill fod yn niweidiol i allu Llywodraeth Cymru i gael trafodaethau agored a gonest gyda rhanddeiliaid rhyngwladol yn y dyfodol, gan olygu na all trafodaethau fod yn rhai mor agored. Fodd bynnag, rwy'n fodlon i'm swyddogion ddarparu trosolwg yn y crynodeb sydd yn amlinellu'r pynciau lefel uchel a drafodwyd, er enghraifft masnach a buddsoddi, addysg, ac ati.

Fe wnaethoch hefyd ofyn am restr o gyfarfodydd a gynhaliwyd gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi'r broses o gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol. Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chadw'n ganolog, felly ni fydd modd ei darparu bob mis. Fodd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

bynnag, byddaf yn sicrhau bod rhai o'r digwyddiadau allweddol a gynhelir gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol pan fydd yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

Memoranda Cyd-ddealltwriaeth

Rydych wedi gofyn am dudalen we bwrpasol sy'n rhestru'r Memoranda Cyd-ddealltwriaeth cyfredol sydd gennym gyda gwledydd a rhanbarthau eraill. Gallaf gadarnhau bod tudalen we wedi ei chreu sydd yn dangos Memoranda Cyd-ddealltwriaeth byw a'i bod ar gael yma: https://www.llyw.cymru/cytundebau-dwyochrog-rhyngwladol

Ni fyddwn yn cyhoeddi manylion llawn y Memoranda Cyd-ddealltwriaeth ar-lein. Fel y nodais yn fy llythyr ar 7 Rhagfyr, ni chyhoeddir cytundebau dwyochrog fel hyn fel arfer. Yn wahanol i'r Memoranda Cyd-ddealltwriaeth a'r concordatau a gyhoeddir rhwng Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig fel rhan o gysylltiadau rhynglywodraethol, cytundebau gyda thrydydd partïon yw'r rhain, ac o ganlyniad i hynny, byddai'n rhaid inni gael eu caniatâd i gyhoeddi'r dogfennau.

Yn gywir,



MARK DRAKEFORD